Newyddion a gwybodaeth i Gymru gan:
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd
CF10 5FH ✆ 029 2043 1700 ✆ 029 2043 1701
www.wcva.org.uk ✆ 0800 2888 329

Ewrop yn nesau at y Canolbarth

Gall trigolion y Canolbarth gael gafael ar wybodaeth am yr Undeb Ewropeaidd (UE) ar unwaith o ganlyniad i wasanaeth sy'n cael ei redeg gan WCVA. Gall pobl sy'n byw yn ardal fwyaf anghysbell Cymru gael atebion ar unwaith i gwestiynau am ddwsinau o bynciau, megis sut i gael cydnabyddiaeth i'w cymwysterau a sut i gwyno am gynnyrch anniogel.

Mae WCVA yn un o'r chwe cyfryngwr gwybodaeth yng Nghymru - ac yn un o'r 700 ledled Ewrop - sy'n cysylltu â gwasanaeth Europe Direct er mwyn darparu cyngor a gwybodaeth i 450 miliwn o bobl ledled y 27 aelod wladwriaeth yn yr UE.

Meddai Fiona Harris, sy'n cydlynu gwaith trosglwyddo gwybodaeth i Europe Direct o WCVA yn y Drenewydd, Powys: 'Nod Europe Direct yw cynnig gwybodaeth gyffredinol am faterion yn ymwneud â'r UE mewn unrhyw iaith swyddogol yr UE, ateb cwestiynau am unrhyw bolisi'r UE a darparu gwybodaeth ymarferol am ddwsinau o bynciau.'

Mae'r gwasanaeth yn darparu manylion cyswllt sefydliadau perthnasol y gall fod angen i'r cyhoedd ddelio â hwy ac yn cynnig cyngor er mwyn helpu i oresgyn problemau ymarferol o ran arddel eu hawliau yn Ewrop. Gall hefyd helpu drwy drefnu digwyddiadau perthnasol gyda'r bwriad o ddarparu siaradwyr am amrywiaeth eang o bynciau'n ymwneud â'r UE.

'Nod Europe Direct yw ateb cwestiynau dinasyddion am sefydliadau, deddfwriaeth, polisïau, rhaglenni a chyfleoedd cyllido'r UE, yn ogystal â hyrwyddo trafodaethau lleol a rhanbarthol.

'Mae'n galluogi sefydliadau Ewropeaidd i wella'r ffordd y rhennir gwybodaeth sydd wedi'i theilwra yn ôl anghenion lleol a rhanbarthol, gan roi'r cyfle i'r cyhoedd anfon adborth ar ffurf cwestiynau, safbwyntiau ac awgrymiadau. A nod WCVA yw defnyddio'r cyfrwng hwn i ddarparu gwybodaeth ymarferol am yr UE i bobl leol ar lefel leol.'

- Bydd gan Europe Direct stondin yn rhai o farchnadoedd y ffermwyr mewn ysgolion a drefnir gan Ymddiriedolaeth Bwyd a Thir y Canolbarth a gynhelir ledled Powys yn 2008. Os carech chi gysylltu ag Europe Direct, ffoniwch 00800 67891011.

Adroddiad ar ffynhonnell o refeniw i'r trydydd sector

Mae Sefydliad Cymorth yr Elusennau (CAF) a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) wedi cyhoeddi adroddiad ar y cyd ar y rhwystrau mwyaf sy'n wynebu elusennau wrth iddynt geisio manteisio ar Gymorth Rhodd.

Cynhyrchwyd yr adroddiad, Key barriers to the adoption of Gift Aid, yn dilyn honiadau nad yw elusennau'n manteisio i'r eithaf ar Gymorth Rhodd o ganlyniad i ddiffyg hyder ac ymwybyddiaeth. Gwnaethpwyd y gwaith ymchwil gan Ipsos MORI yn ystod Hydref 2007, ac roedd yn cynnwys cyfweliadau gyda 46 o elusennau o bob maint, chwe mudiad canolraddol sy'n cynorthwyo elusennau i weinyddu rhoi treth effeithiol, a phum mudiad gydag arbenigedd mewn datblygu polisi i'r trydydd sector.

Daeth yr ymchwil i'r casgliad bod pob elusen o'r farn bod Cymorth Rhodd yn rhywbeth positif, waeth pa mor aml maent yn ei ddefnyddio. Mae'n ffynhonnell ychwanegol o arian bwysig i lawer ac roedd wedi datblygu i fod yn elfen anhepgor o strategaeth codi arian llawer o fudiadau.

Ymhlith llawer o elusennau llai, sy'n aml yn dibynnu i raddau helaeth ar roddion fel ffrwd incwm, nid oes llawer o ddealltwriaeth sut y mae Cymorth Rhodd yn gweithio, tra bod llawer o elusennau mawr yn fwy ymwybodol o'r rheolau a'r broses gofrestru er eu bod yn llai dibynnol ar yr arian ychwanegol hwn.

Meddai Richard Harrison, Cyfarwyddwr Ymchwil CAF: 'Roedd y canfyddiadau'n sail i gynlluniau'r Llywodraeth i wella Cymorth Rhodd, fel y cyhoeddwyd y mis diwethaf. Mae'r gwelliannau'n canolbwyntio'n fwyaf arbennig ar gynorthwyo elusennau llai, ac mae'r ymchwil yn cadarnhau'r farn mai'r elusennau llai hyn sydd angen cymorth i wneud y gorau o Gymorth Rhodd. Yr addewid i symleiddio archwiliadau, gwybodaeth a chanllawiau yw'r union beth maent wedi ei ddweud sydd ei angen arnynt.'

Ychwanegodd Prif Weithredwr WCVA, Graham Benfield OBE: 'Mae'n hanfodol bod elusennau a mudiadau trydydd sector yn dod yn fwy cyfarwydd â rheolau a phrosesau Cymorth Rhodd gan ei fod yn ffynhonnell allweddol o gyllid ychwanegol i'r sector. Mae WCVA yn croesawu penderfyniad y Canghellor i ganiatáu elusennau i hawlio Cymorth Rhodd yn ôl y cyfraddau treth presennol, am y tair blynedd nesaf, er bod cyfraddau treth incwm yn gostwng y mis yma.

'Bydd penderfyniad y Canghellor i gynorthwyo elusennau bach a mawr trwy wneud hyn yn arbed oddeutu £100m y flwyddyn iddynt am y tair blynedd nesaf. Yr ydym yn gobeithio y bydd y Llywodraeth yn awr yn gweithredu ar gynigion gan y sector i symleiddio'r ffynhonnell bwysig hon, ac y bydd yn golygu cynnydd yn y niferoedd sy'n manteisio arni.'

Os hoffech gael copi o'r adroddiad, ewch i www.cafonline.org. Am ragor o wybodaeth am Gymorth Rhodd, ffoniwch Lein Gymorth WCVA ar 0800 2888 329.

Newyddion a gwybodaeth i Gymru gan:
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd
CF10 5FH ☎ 029 2043 1700 📠 029 2043 1701
www.wcva.org.uk ☎ 0800 2888 329

Gobaith y bydd cyfarwyddyd diwygiedig yn agor drysau newydd at gontractau sector cyhoeddus i'r sector

Bydd cyfarwyddyd diwygiedig gan lywodraeth cynulliad Cymru'n helpu grwpiau cymunedol a gwirfoddol i gystadlu'n well am gontractau sector cyhoeddus a gweithredu dan amodau teg, clywodd cynhadledd yng Nghaerdydd ar ddydd Mercher 7 Mai.

Lansiodd Andrew Davies, y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus, y Siarter Agor Drysau newydd sy'n amlinellu cyngor am weithio gyda'r trydydd sector.

Dywedodd Mr Davies: 'Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ymrwymiad parhaus i hyrwyddo swyddogaeth mudiadau cymunedol a gwirfoddol o ran cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus, yn ogystal ag mewn meysydd eraill megis trafnidiaeth gymunedol, ailgylchu, tai neu adfywio cymunedol.

'Mae'r Siarter Agor Drysau newydd yn garreg filltir arwyddocaol o ran gwella cyfleoedd caffael y sector cyhoeddus ar gyfer y rhan bwysig hon o'n cymdeithas. Ers cael ei lansio yn 2006, mae'r siarter wedi galluogi cynnydd sylweddol, ac mae prif fudiadau'r sector cyhoeddus i gyd wedi ymrwymo i egwyddorion y Siarter. Mae fersiwn newydd 2008 yn ei gwneud yn glir bod y term 'BBaCh' hefyd yn cyfeirio at fudiadau'r trydydd sector a busnesau a gefnogir.

'Drwy roi mwy o gydnabyddiaeth i'r trydydd sector o ran arferion caffael, gallwn oresgyn y rhwystrau a enwir yn aml, sef y diffyg gwybodaeth am gyfleoedd contractau, tueddiadau tuag at gontractau ar raddfa fwy, gweithdrefnau tendro cymhleth a chostus a chontractau tymor byr.'

Bydd y Tasglu Caffael Busnes, wedi'i gadeirio gan Andrew Davies, yn symud ei ffocws oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru, gan ei alluogi i ddechrau canolbwyntio ar gyfraniadau o sectorau eraill. Bydd gwaith y Tasglu yn cynnwys cyflawni'r ymrwymiadau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Gweithredu Trydydd Sector y cytunwyd arno gyda WCVA.

Ar hyn o bryd, mae is-grwp busnesau a gefnogir y tasglu yn datblygu contract fframwaith neilltuedig ar gyfer busnesau a gefnogir. Mae busnesau a gefnogir yn cynnwys cwmnïau cymdeithasol lle mae dros 50 y cant o'r gweithlu yn bobl anabl. Caiff y gwaith hwn ei arwain gan fenter Gwerth Cymru Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae Gwerth Cymru hefyd wedi comisiynu datblygu cwrs newydd ar gyfer y rheini sy'n caffael yn y sector cyhoeddus ar sut i weithio â'r trydydd sector. Caiff ei gyflwyno'n ddiweddarach eleni.

Gellir gweld *Agor Drysau - Siarter Caffael Cyfeillgar BBaCh a Caffael a'r Trydydd Sector: Cyfarwyddyd i'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru* yn:http://new.wales.gov.uk/topics/improvingservices/bettervfm/publications/openingdoors/?lang=cy

Beth sydd ar y gweill i'ch rhan chi o Gymru?

Mae'r ymgynghoriad ar ddiweddaru Cynllun Gofodol Cymru wedi dod i ben erbyn hyn. Mae'r ymateb wedi bod yn galonogol, gyda niferoedd ardderchog wedi mynychu'r digwyddiadau rhanbarthol, a chyda cymysgedd da o sectorau a brwdfrydedd go iawn i gyfrannu a helpu i symud y gwaith yn ei flaen.

Yn ogystal â'r digwyddiadau rhanbarthol, mae tîm y Cynllun Gofodol wedi bod yn cysylltu â'r sector busnes, y gymuned gynllunio, y sector gwirfoddol, yn ogystal â phlant a phobl ifanc.

Mae Gweinidogion newydd yn eu lle yn yr holl feysydd ac maent wedi bod yn mynychu'r digwyddiadau. Bydd y Gweinidogion arweiniol yn gweithio'n agos gyda Grwpiau'r Ardaloedd i yrru'r gwaith o'i gyflwyno yn ei flaen yn eu rhanbarthau, a bydd y trafodaethau am gyflwyno a gafwyd yn y gweithdai ymgynghori yn cael eu bwydo i'r broses hon.

Mae tîm y Cynllun Gofodol yn gobeithio cyhoeddi fersiwn diweddaraf y ddogfen yn yr haf.

WCVA sy'n cydlynu cyfraniad y sector gwirfoddol at y Cynllun Gofodol ar lefel ardal ac ar lefel genedlaethol, ac rydym wastad yn chwilio am ffyrdd o wella ein cyswllt â'r sector ac yn croesawu unrhyw argymhellion.

I gael mwy o fanylion cysylltwch â Constance Adams ar 01686 611052 neu anfon e-bost i cadams@wcva.org.uk. I gael mwy o wybodaeth am y Diweddariad, neu am unrhyw agwedd ar Gynllun Gofodol Cymru, cysylltwch â'r tîm ar 029 2082 3759 neu anfonwch gwestiwn i WSP@wales.gsi.gov.uk.

Newyddion a gwybodaeth i Gymru gan:
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd
CF10 5FH ☎ 029 2043 1700 ✉ 029 2043 1701
www.wcva.org.uk ☎ 0800 2888 329

Mudiadau am y gorau

Rhoddir llwyfan i fudiadau gwirfoddol ledled Cymru yn ystod 2008, diolch i Wobrau *Rhwydwaith Cymru* sydd newydd gael eu sefydlu.

Lansiwyd Gwobrau *Rhwydwaith Cymru*, a gefnogir gan Class Telecommunications, yng nghyhnadledd WCVA. Fe'u sefydlwyd i ddangos gwaith y trydydd sector a rhoi cydnabyddiaeth genedlaethol am lwyddiannau eithriadol. Gall unigolion enwebu eu mudiad eu hunain am wobr a gallant hefyd enwebu mudiadau eraill mewn categorïau ar wahân. Bydd pob mudiad a enwebir yn cael tystysgrif o ganmoliaeth a chyflwynir gwobr i'r enillwyr yng nghinio cynhadledd flynyddol WCVA yn 2008. Y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau yw 19 Medi 2008.

Gellir cael manylion llawn cynllun Gwobrau *Rhwydwaith Cymru*, gan gynnwys ffurflenni enwebu, gan Lein Gymorth WCVA ar 0800 2888 329. Gellir hefyd eu lawrlwytho oddi ar y wefan www.wcva.org.uk.

Cyfathrebu cryfach

Lansiwyd Cam 2 y Strategaeth i Bobl Hŷn yn ddiweddar, a chan y cydnabyddir bod gan y sector gwirfoddol rôl arweiniol i'w chwarae, mae Cynghrair Henoed Cymru yn ailwampio'i wefan er mwyn darparu rhwydwaith cyfathrebu cryfach.

Gan weithio ar yr egwyddor nad oes modd ystyried rhywbeth yn arfer da nes y dywedwch wrth rywun arall, bydd pobl sy'n gweithio gyda phobl hŷn, ac ar eu rhan, yn cael cyfle i rannu'r gwaith da a wnânt ar wefan newydd y Cynghrair. Mae cael gafael ar wybodaeth yn y ffordd hon yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod tystiolaeth gadarn o'r hyn sy'n gweithio'n cael ei rhannu ar draws Cymru.

Dywedodd Lowri Griffiths, Cadeirydd y Cynghrair: 'Mae rhannu gwybodaeth mor bwysig pan rydym ei chael hi'n anodd canfod beth sy'n gweithio. Os ydych chi'n credu bod yr hyn yr ydych yn ei wneud yn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl, dywedwch wrth rywun arall. Gallai rhoi yn y ffordd hon olygu y bydd bywydau'n cael eu newid er gwell rywle arall.'

Bydd y wefan newydd yn rhyngweithiol, ac yn gadael i hyd at 300 o bobl o bob rhan o Gymru ddod yn ddefnyddwyr achrededig i rannu arferion da a chyfnewid gwybodaeth am faterion sy'n berthnasol i bobl hŷn. Os hoffech gyfrannu, ffoniwch 029 2043 1538 neu anfon e-bost at martyn.pengilley@agealliancewales.org.uk.

Cyfle olaf i geisio am gynllun *Dewch draw am help llaw*

Mae cynllun Cyllid Cynaliadwy Cymru (SFC) WCVA yn cyflwyno'r gronfa newydd Dewch draw am help llaw (Be Informed) fydd yn helpu grwpiau yn eu cais am gynaliadwyedd ariannol drwy ddangos iddynt sut i fynd o gwmpas pethau - a sut i beidio.

Bydd y cynllun, a reolir ac a weinyddir gan WCVA ac a ariennir gan y Gronfa Loteri Fawr yng Nghymru, yn rhoi cymorth ariannol i grwpiau i fynd i ymweld â mudiad arall i ddysgu am eu profiadau hwy a'r materion allweddol i'w hystyried wrth geisio sicrhau cynaliadwyedd ariannol.

Bydd y gronfa Dewch draw am help llaw yn galluogi i fudiadau rannu'r arferion gorau ac yn arwain at fod fudiadau'n gwella'u dealltwriaeth o'r prosesau sy'n gysylltiedig â chyllid cynaliadwy.

Ynghyd â chyfrannu uchafswm o £200 tuag at fân-dreuliau mudiadau, megis costau teithio ac amser, bydd Dewch draw am help llaw yn talu ffi ymgynghoriaeth i'r mudiad croesawu o hyd at uchafswm o £200 am yr amser a dreulia gyda'r ymwelwyr.

Mae ffurflenni cais ar gael gan Lein Gymorth WCVA, 0800 2888 329, ebost help@wcva.org.uk neu ewch i www.sustainablefundingcymru.org.uk. Mae'r gronfa yn cau ar 30 Mehefin.

ymgynghoriad

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymgynghori ynghylch cynigion i ymestyn y ddarpariaeth ar gyfer rhyddhad ardrethi i rai siopau, gofalwyr plant cofrestredig ac undebau credyd.

Mae'n gwahodd sylwadau am y cynigion a'r gorchymyn drafft a fydd yn eu rhoi ar waith (http://new.wales.gov.uk/consultations/currentconsultation/locgovcurrcons/smallbusinessrelief/?lang=en) Mae'r ymgynghoriad yn cynnwys amlinelliad drafft o'r gorchymyn a fydd yn rhoi'r cynigion terfynol ar waith. Gydag ail-rifo priodol, caiff hyn ei gynnwys yn y gorchymyn presennol sef Gorchymyn Ardrethi Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2006. Gwahoddir awdurdodau lleol i nodi a chyfiawnhau unrhyw gostau ychwanegol rhesymol y byddant yn eu hwynebu yn sgil gweinyddu'r cynllun. Y dyddiad cau yw 24 Gorffennaf 2008.

Newyddion a gwybodaeth i Gymru gan:
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd
CF10 5FH ☎ 029 2043 1700 ✉ 029 2043 1701
www.wcva.org.uk ☎ 0800 2888 329

Beth nesaf i Gymunedau yn Gyntaf?

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi bod yn ymgynghori ynghylch ei chynigion ar gyfer cyfnod nesaf Cymunedau yn Gyntaf.

Mae'r ddogfen ymgynghori'n ailadroddodd yr ymrwymiad ar gyfer 'rhaglen wedi'i harwain gan y gymuned' ac mae'n cynnwys cynigion ar gyfer ffocws cliriach ar ganlyniadau diriaethol a rhagor o blygu rhaglenni, ynghyd â symleiddio strwythurau cefnogi'r Rhaglen a newid yn y cyllid o gefnogaeth i ddarparu ar y rheng flaen.

Mae ymateb WCVA i'r ymgynghoriad wedi croesawu'r hwb am ragor o eglurder o ran y cyfeiriad a'r pwrpas ond mae'n rhybuddio bod y cynigion yn rhoi cyfrifoldebau trwm ar Bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf, gan gynnwys eu haelodau cymunedol sy'n rhoi eu hamser o'u gwirfodd, gan ddweud ychydig am yr hyn a fydd yn cael ei wneud i'w cynorthwyo. Mae ymateb WCVA hefyd yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i weithredu er mwyn annog a chefnogi'r darpariaeth o wasanaethau rheng flaen gan fudiadau'r trydydd sector yn ardaloedd Cymynedau yn Gyntaf.

Mae cyflwyno dangosyddion ar gyfer partneriaethau sy'n 'methu' yn cadarnhau'r synnwyr na chaiff Partneriaethau eu hystyried fel partneriaid yn Cymunedau yn Gyntaf ond dim ond asiantau. Ar lefel gymunedol mae llwyddiant y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn dibynnu ar rwydwaith sylweddol o filoedd o wirfoddolwyr a mudiadau cymunedol a gwirfoddol. Maent yn cynnig gwybodaeth arbenigol am eu cymuned er mwyn cyfrannu at gynllunio a dylunio gwasanaethau ac mae'r pwer ganddynt i gyd-gynhyrchu'r canlyniadau a fydd yn ddymunol ar gyfer adfywio - mwy o bobl mewn gwaith, cymdogaethau mwy diogel, llai o wastraff, mwy o fentrau cymdeithasol, er enghraifft. Maent yn dod a'u profiadau o ddarparu gwasanaethau sydd yn cyrraedd y nodau a ddynodwyd gan Bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf.

Mae WCVA wedi galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru, fel blaenoriaeth, i gymryd camau i sicrhau Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf, yn enwedig eu haelodau gwirfoddol, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi fel partneriaid yn y broses o adfywio.

Mae ein hymateb yn rhoi tair menter y dylai Llywodraeth y Cynulliad eu cynnal i helpu Partneriaethau.

- Cyflwyno rhaglen hyfforddi a chefnogi ar gyfer Partneriaethau, mewn sgiliau cynllunio, datblygu a rheoli prosiectau ar gyfer cyfranogi, cynrychioli a gwaith partneriaeth.
- Datblygu ffynonellau cefnogaeth newydd, gan gynnwys dysgu a mentora rhwng cyfoedion, fel y cynigir yn y ddogfen ymgynghori, ond gyda'r amod na fydd y rhain efallai'n medru darparu lefel gyffredin a chyson o gefnogaeth i bob Partneriaeth.
- Cyflwyno menter genedlaethol i gefnogi a datblygu sgiliau cydlynwyr a staff cefnogi, a chynnal gwasanaeth cefnogaeth cenedlaethol, sydd o fewn cyrraedd hawdd a hwylus i'r Partneriaethau - ac sy'n annibynnol, wedi'i gydlynu ac yn ymatebol i'w hanghenion.

Mae'r ddogfen yn cynnig cynnydd mewn 'plygu rhaglenni' - cyfeirio gwasanaethau cyhoeddus tuag at yr ardaloedd hynny sydd â'r angen mwyaf a chreu 'cronfa ganlyniad' i annog hyn.

Mae ymateb WCVA yn galw am:

- gymhelliannau ychwanegol a allai hybu cytundebau lleol ac ar y cyd sy'n ymwneud â chynnwys a darparu gwasanaethau, gan gynnwys cyllid ar gyfer cyllidebu cyfranogol a chanran o gyllidebau gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer comisiynu cymunedol;
- mwy o gydnabyddiaeth bod mudiadau'r trydydd sector eisoes yn darparu gwasanaethau'r 'rheng flaen', a nifer ohonynt yn cynhyrchu eu hincwm eu hunain, a menter gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i annog eu cyfranogiad yn y rhaglen; a
- datganiad digamsyniol ar ymgysylltu â'r gymuned gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, sy'n gofyn i ddarparwyr gwasanaeth weithio gyda Phartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf i'w cysylltu â'r gwaith cynllunio strategol, a gweithredu hyfforddiant mewn sgiliau ymgysylltu ar gyfer staff y rheng flaen ac ar gyfer cynllunwyr a rheolwyr gwasanaeth. Mae ymgysylltu â dinasyddion wrth ddylunio a darparu gwasanaethau yn hanfodol yn y cymunedau mwyaf difreintiedig hyn pan mai methiant gwasanaeth yw'r dewis arall.

Mae ymateb llawn WCVA yn www.wcva.org.uk

Bydd rhifynau nesaf yr atodiad cenedlaethol hwn gan WCVA ar gael ar ddiwedd misoedd Gorffennaf a Medi 2008.

Deddf Cadw Data 1998. Cedwir a phrosesir manylion cysylltu pob un sy'n derbyn yr *Atodiad Cenedlaethol* gan WCVA ar gyfrifiadur. Defnyddir y wybodaeth gan WCVA i fonitro a hyrwyddo'r sector gwirfoddol yng Nghymru. Datgelir manylion cysylltu i drydydd parti i fod o gymorth yn y broses hwn.